Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
MEDI 2008

DYDDIAD	**Nos FAWRTH** 16eg Medi, 2008
AMSER	7yh
LLEOLIAD	**YSGOL RHOSTRYFAN**
AELODAU'N BRESENNOL	Jason Hunt (Cad), Elin Evans, Tom Ellis, Meurig Williams, Gwilym V.Thomas, Nerys Evans, Gwilym L.Williams
HEFYD YN BRESENNOL	Cyng.Aeron M.Jones, Hywel Williams, AS, Bethan Williams, Clerc

1. **Ymddiheuriadau**
   Neal Williams, Elwyn Jones, Jane Eryl Jones

2. **Croeso**

3. 1 **Datgan Buddiant**
   EE – nawdd i Neuadd Llanwnda
   AMJ – cynllunio

4. **Cadarnhau cofnodion**
   Cadarnhawyd cofnodion mis Gorffennaf fel rhai cywir. c.GVT e.MW

5. **Materion i'w trafod:**
   a. Materion godwyd gan AMJ efo Cyngor Gwynedd.: perchnogaeth tai cyngor; cais cynllunio safle hen neuadd Rhosgadfan; arwyddion ffyrdd; trafnidiaeth yn Saron; defnydd o gerbydau'r cyngor.
   b. Llythyr gan D.W.Williams mewn ymateb i gwynion ynglyn a phroblemau parcio a diogelwch ger ysgol Rhostryfan a diffyg palmant rhwng Aberalaw a Penffordd yn Rhosgadfan. Nodwyd nad oes cyfalaf ar gael i wneud gwelliannau o'r math.
   c. Angen gofyn eto am finiau brown i'r ardal.
   d. Cafwyd cwyn fod cyflwr gwael ar fynwent Rhostryfan. Nododd y clerc mai cyfrifoldeb y Capel yw'r fynwent, ac nad yw'r Cyngor Cymuned wedi cymryd cyfrifoldeb drosti, er bod gohebiaeth yn nodi fod bwriad i drosglwyddo cyfrifoldeb i'r Cyngor cryn flynyddoedd yn ôl, ni gwblhawyd y gwaith, ac felly mae'r cyfrifoldeb yn sefyll gyda'r capel.

6. **Derbyn Adroddiadau:**

7. **Is-bwyllgorau:**

8. **Ymunodd Hywel Williams AS**
   Trafodwyd materion sy'n pryderu pobl: credydau treth; gobaith o gael carchar i Gaernarfon; nododd fod ganddo gymorthfeydd bob pythefnos ac ei fod hefyd yn bwriadu cynnal sesiynau yn y pentrefi, ac y bydd yn rhoi hysbyseb yn y wasg leol i nodi'r dyddiadau a'r lleoliadau.

9. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	21,582.90
Cyfri Siec:	1,215.64
CYFANSWM	**22,798.54**

Taliadau:

Cyflog/costau clerc – mis Medi	395.15
Cyllid y Wlad	97.35
Cyngor Gwynedd – costau etholiad	357.00
Siôn Owen (penderfynwyd gofyn wrth Siôn wneud un toriad ychwanegol yn y fynwent ddiwedd Hydref ac i gario 'mlaen i wneud y gwaith ffensio oddi fewn i'r fynwent)	710.00
Cyngor Gwynedd – arwyddion LED – AMJ yn mynd i ymholi ymhellach i weld be ydy'r sefyllfa ynglyn â rhain.	8918.89
	+62.01

Incwm: Ad-daliad TAW

Ceisiadau am nawdd i'w trafod ym mis Hydref: Shelter Cymru, Cymdeithas Alzheimer, Marie Curie, Neuadd Llanwnda (er fod pwyllgor Neuadd Llanwnda yn awyddus i gael arian ar gyfer gwaith paentio, penderfynwyd trafod y cais yn Hydref, gan mai dim ond mis arall sydd i'w ddisgwyl)

Materion Cynllunio

Cynllun Datblygu Unedol – Fersiwn diwygiedig

CO8A/0483/24/AM
Cais amlinellol i godi 1 tŷ– Trem y Werydd, Rhostryfan – teimlai'r aelodau fod hwn yn agos iawn i'r lôn, ac o ystyried fod problemau dwr wyneb yn yr ardal yma, yn cwestiynu a ddylai'r datblygiad yma gael caniatâd.

Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:
CO8A/0534/24/LL
Dymchwel ty presennol ac ail godi ty unllawr newydd, modurdy dwbl, estyniad cwrtil a gosod tyrbein gwynt – Nant Bach, Moel Tryfan, Rhosgadfan
Eisoes wedi'u caniatau:
Lolfa Wydr – Anwylan, Gerddi Benar
Codi 4 sied a polytunnel – Hafod Rhos Isaf, Rhosgadfan
Estyniad a newidiadau – Ty'n Rhosgadfan, Rhosgadfan

Gwrthodwyd:
2 dy ar safle hen neuadd Rhosgadfan

Gohebiaeth:

a. Gwahoddiad i dderbyniad gan Sefydliad Prydeinig y Galon ym Mharc Menai ar y 10fed o Hydref – rhwng 10.30 a 12.30.
b. Diwrnod hyfforddiant i glercod – Institiwt Caernarfon, dydd Sadwrn, 11eg Hydref – rhwng 10 a 3.30. Cost: £35. Cadarnhaodd yr aelodau eu bod yn caniatau i'r clerc fynychu'r cwrs.
c. Cyngor Gwynedd – Cist Gwynedd
d. Awdurdod yr Heddlu – cyfarfod yn Nolgellau 14.10.08
e. Llythyr gan ganolfan Cae'r Gors at Gyngor Gwynedd yn nodi'u pryder ynglyn a'r wal gerrig sy'n ffinio Cae'r Gors a'r ffordd.
f. Cynulliad – Gwerth Cymru
g. Un Llais Cymru – cynhadledd ym Mhontrhydfendigaid
h. Un Llais Cymru – Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor – 24.09.08, Institiwt Caernarfon 7p.m.
i. SLCC – cyfarfod blynyddol
j. Gofal a Thrwsio – adroddiad blynyddol
k. Cynulliad – Cymuned ar y Cyd
l. Cylchgronnau

10. **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf:**
    a. Cae Chwarae Rhosgadfan – AMJ yn mynd i drefnu cyfarfod.
    b. Ailgylchu – angen trafod y trefniadau sy'n bodoli yn yr ardal
    c. Llwybr Glan Wern/Bryn Menai – angen sylw